



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn yn ysgol hapus a chartrefol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu amgylchedd gofalgar, cefnogol a diogel i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd hynod o gadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr awyrgylch ddysgu fyrlymus sy'n bodoli.



Mae disgyblion yn caffael yr iaith Gymraeg yn gynnar ac yn effeithiol gan sgwrsio'n hyderus mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Maent yn dangos balchder wrth siarad Cymraeg ac yn ymfalchïo eu bod yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog, hyderus erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.



Mae ymddygiad ac agweddau'r disgyblion at ddysgu yn gryfder. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn barchus tuag at oedolion, ac yn gwrtais i ymwelwyr, boed hynny mewn gwersi neu yn ystod amser egwyl. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Maent yn cydweithio'n ddiwyd ar ystod o dasgau.



Mae gweledigaeth glir yr ysgol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a'r pwyslais cadarn ar werthoedd cytûn yn cefnogi athrawon a staff i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn a chynnal brwdfrydedd, a diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu bob tro.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Ceir ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd ym mhob dosbarth ac mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol i wneud yn siŵr fod disgyblion yn cyflawni'n dda gan ddefnyddio'r medrau hyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon aml ac nid yw medrau digidol, ar draws yr holl ystod, wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae gwybodaeth disgyblion am e-ddiogelwch yn gryfder.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eglur a phwrpasol. Mae'n gwerthfawrogi barn staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr, ac yn gwneud yn siŵr fod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Argymhellion

A1 Gwella agweddau o fedrau digidol disgyblion

A2 Datblygu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	227
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	171
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	29
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%)	16.6%
Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%)	2.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref	65.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad y penodwyd y pennaeth	02/07/2012
Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol)	04/03/2014
Gwybodaeth ychwanegol	

ⓘ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.